YR YSTWYLL 2

1 SAMUEL 3:1-10 [11-20]; SALM 139:1-6, 13-18; 1 CORINTHIAID 6:12-20; IOAN 1:43-51

● Gweddi agoriadol

Rwyt yn siarad â ni mewn llawer ffordd:
yn nhawelwch ein haddoli,
yng nghanu ein emynau,
yn narllen dy air,
yn y gymdeithas a rannwn.
Agor ein clustiau a'n calonnau
er mwyn i ni glywed dy lais tyner
ac, o'i glywed, ymateb.

● Moliant

Rwyt yn ein hadnabod
ac eto yn ein galw,
a ninnau'n amherffaith,
i fod yn oleuni i ti yn y byd,
i ddwyn llawnder a rhyddhad,
i iacháu'r cleifion
a chynnal y gwan.
Rwyt yn ein hadnabod
ac eto yn ein galw
i fod yn llestri dy ras.

Mae'n anodd i ni amgyffred
dy fod yn ymddiried y genhadaeth hon i ni,
a'r dasg,
yn ein nerth ein hunain
yn amhosibl.
Rwyt yn ein nabod,
ein galw,
ein defnyddio,
ond, yn bwysicach,
drwy dy Ysbryd
yn ein nerthu.

● **Cyffes**
Weithiau, Arglwydd,
anghofiwn i ti ein croesawu
i'th deyrnas,
ac rydym yn dewis cerdded mewn byd
sy'n ein temtio'n ddyddiol.

Weithiau, Arglwydd,
anghofiwn y rhyddid a roir i ni
yn dy deyrnas,
a dewis y llyffethair oedd yn brofiad i ni
cyn iti ein galw.

Atgoffa ni, Arglwydd,
o'r pris a delaist er mwyn i ni
gael dod i mewn i'th deyrnas.
Maddau, a derbyn ein diolch
am y fath ras.

● Diolch

Arweinydd: Diolchwn i ti am dy alwad
Pawb: Ac fe ddilynwn
Arweinydd: I fod yn dystion i ti
a dwyn goleuni Crist i'r byd.

Arweinydd: Diolchwn i ti am dy alwad
Pawb: Ac fe ddilynwn
Arweinydd: Ble bynnag yr arweini ni,
achos fe'n cedwi yn ddiogel
yn dy freichiau.

Arweinydd: Diolchwn i ti am dy alwad
Pawb: Ac fe ddilynwn
Arweinydd: I fod yn llais cryf
ble mae anghyfiawnder
a dioddefaint.

Arweinydd: Diolchwn i ti am dy alwad
Pawb: Ac fe ddilynwn
Arweinydd: I ddangos dy gariad a'th ras
yn ein bywydau
yn offrwm diolch i ti.